

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mai 3ydd, 2018 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Marian Evans; William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans; Margaret Griffith; Tegid Jones; Trefor Wyn Jones; Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones; Gareth O Davies; Angela Williams a'r Clerc. Diolchodd y Cadeirydd newydd i'r Cyn Gadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans am ei gwaith fel Cadeirydd am ddwy flynedd.

1. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Aled Davies; Naomi Jones; Anwen Jones a Sion Aled Jones.

2. Dewis cynrychiolydd i Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru. Dewisiwyd y Cynghorydd Trefor W Jones.

3. Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grŵp Mynediad Dwyfor. Penderfynwyd gofyn i Mr Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog gario ymlaen.

4. Arwyddwyd Datganiad Derbyn Swydd, Cadeirydd gan y Cynghorydd Margaret Griffith.

5. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ebrill 5ed, 2018 gydag un cywiriad sef rhif 21 ar y rhaglen, cyflog y Clerc o Ebrill 2018 ddylai fod nid Ebrill 2017.

6. Arwyddwyd cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.

7. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

8. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

9. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned; dau lythyr, tyllau yn y ffyrdd a glanhau traeniau yn ardal Llangybi. Penderfynwyd derbyn.

2. Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy, er gwybodaeth. Mae'r gwaith paentio diweddar yn plicio ffwrdd; oherwydd tamprwydd, mae'n ymddangos na ellir cywiro hyn heb wariant sylweddol ar ran y Cyngor Sir. Derbyniwyd.

3. Biniau Afonwen. Yn dilyn cwynion bu'r Cynghorydd Sir mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd ac mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i osod bin baw ci a bod yn gyfrifol am ei wagio. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd yn diolch iddynt a gofyn iddynt osod y bin ochr ucha i bont y rheilffordd gan mai yno mae pobl yn parcio'i ceir.

4. Gwasanaeth bws drwy Roslan. Dal yn gyndyn o adfer y gwasanaeth mae Cyngor Gwynedd oherwydd diffyg cyllid. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Tref Cricieth am gefogaeth i'r cais i ail gychwyn y gwasanaeth o Gricieth i Gaernarfon gan ei fod yn effeithio ar drigolion Cricieth yn ogystal.

10. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif: C18/0277/41/CR – Am newid ffenestri presennol o ddur a pren ynghyd â newid deunydd y canopi cefn; Ysgol Llanystumdwy. Penderfynwyd cefnogi.

2. Cais Rhif: C18/0299/41/CC – Gwaith i goed wedi eu gwarchod gan Orchymyn Gwarchod Coed; Broom Hall House, Chwilog. Cefnogi.

3. Cais Rhif: C18/0319/41/TR – Creu cyflenwad trydan tanddaearol; tir ger Penrallt Bach, Llanystumdwy. Penderfynwyd cefnogi.

11. Yr Arolygiaeth Gynllunio; Town and Country Planning Act 1990, Appeal by Cartrefi Cymunedol Gwynedd, land at Bro Sion Wyn, Chwilog, Gwynedd. Derbyniwyd.

12. Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yn gofyn am farn aelodau o'r cyhoedd ynghylch rôl Cynghorau Cymuned a Thref yn y dyfodol.

Penderfynwyd gadael ar y bwrdd.

13. Un Llais Cymru/SLCC/ICO- Information Commissioner's Office/Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y ddiweddaraf ynghylch GDPR.

Mae'r Clerc wedi dechrau gwneud audit o'r data sydd gan y Cyngor, yn wybodaeth am y Clerc, y Cynghorwyr, y rhai bu'r Cyngor yn gohebu gyda dros y flwyddyn ddiwetha yn cynnwys y rhai sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor. Yn ogystal dylid cofrestru'r Cyngor gyda'r ICO, Information Commissioner's Office/Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a chofrestru.

14. Gohebiaeth oddi wrth Gymdeithas yr Iaith ynghylch Clybiau Ieuenctid Gwynedd.

Cadarnhawyd nad oes clwb ieuenctid yn cael ei redeg gan Gyngor Gwynedd yn y gymuned hon.

15. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Dau fater gan y Cynghorydd Marian Evans. Deallir bod cerddwyr ar lwybr yr arfordir drwy fuarth Abercin yn mynd ar goll oherwydd diffyg arwyddion. Penderfynwyd anfon at Reolwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd yn gofyn iddo roi sylw i'r gwyn.

Mae dŵr yn llifo ar wyneb y ffordd uwchben tro Tŷ Newydd lle mae'r man pasio, mae'n debyg oherwydd draen wedi cau. Penderfynwyd cysylltu gydag Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd.

Rhoslan

Chwilog

Cwyn gan drethdalwyr am gyflwr traeth Afonwen, baw ci a llanast wedi'i adael. Mae'r broblem baw ci wedi cael ei drafod yn rhif 9.3 biniau Afonwen. Mae'r llanast sydd wedi'i adael ar y traeth yng nghymuned Abererch/Llannor.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

16. Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig; gwahoddiad i ddigwyddiad lansio Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2018. Doedd neb yn gallu mynd i'r cyfarfod yma.

Materion Ariannol

17. Derbyn taliad cyntaf y praesept gan Gyngor Gwynedd, £7,500-. Derbyniwyd.

18. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Y trefniadau gyda'r archwilwyr mewnol. Fel sy'n arferol rhoddwyd adroddiad lawn yn nodi yn union beth ydi'r sefyllfa ariannol yn cael ei gefnogi gan adroddiadau banc cyfredol. Mae'r gwaith symud y safle bws i gyferbyn â'r lloches bws ger tai Cae'r Ffynnon, Llanystumdwy ar fin cael ei wneud. Does dim peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Mae'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 2018 wedi cael eu derbyn yn y Cyfarfod Blynyddol ac felly gellir mynd ymlaen gyda'r Archwiliad Ariannol Mewnol. Derbyniwyd yr adroddiad.

19. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2018 ymlaen; trafod prisiau.

Trafodwyd y gwahanol brisiau a phenderfynwyd gosod y gwaith fel a ganlyn:

- a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
Penderfynwyd gosod y gwaith yma i Mr Clifford Hughes am £108-.
- b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
Penderfynwyd gosod y gwaith yma i Mr Clifford Hughes am £216- am y ddau doriad.
- c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
Penderfynwyd gosod y gwaith yma i Trefn am £150- am y ddau doriad.
- ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
Penderfynwyd gosod y gwaith yma i Trefn am £190- am y ddau doriad.
- d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
Penderfynwyd gosod y gwaith yma i Atkin Groundworks Ltd am £290- + TAW am y ddau doriad.

dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.

Penderfynwyd gosod y gwaith yma i Trefn am £20-.

20. Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi am y tair blynedd nesaf, trafod prisiau.

Trafodwyd y prisiau a phenderfynwyd gosod y gwaith i Mr Clifford Hughes am y prisiau canlynol: 4 toriad am

£498- y tymor sef £96- y toriad + £76- matiau + £38- barbio tu ôl i'r ffens BI 1

BI 2 498- + 4% = £517.92c

BI 3 517.92c + 4% = £538.64c

21. Anfonebau angen eu talu:

a. Yswiriant y Cyngor o Fehefin 1af, 2018 i Fai 31ain, 2019, cytundeb pum mlynedd; Zurich, £706.22c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

b. Capel Pencaenewydd; defnydd o'r festri i dri cyfarfod, £55-, taliad BACS.

Penderfynwyd ei dalu.

c. Taliad cofrestru gyda'r ICO Information Commissioner's Office/Swyddfa'r

Comisiynydd Gwybodaeth £35-, taliad siec. Penderfynwyd ei dalu pan ddaw yr anfoneb.

Yn y diwedd taliad BACS wnaed.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

Ch. Criccieth Cleaning Ltd. am waith chwarterol glanhau'r llochesi bysiau ar Ebrill 10fed, 2018, £103- + TAW = £123.60c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

22. Ebrill 18fed, 2018, gohebiaeth oddi wrth NALC drwy Un Llais Cymru+ SLCC/ALCC Cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 1af, 2018 ymlaen. Ebrill1af, symud i fyny ar y raddfa o SCP 21 i SCP 22 sef £10.953c yr awr x 30 awr y mis x12 mis = £3,943.08c y flwyddyn. Penderfynwyd derbyn

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

23. Dau ohebiaeth hwyr oddi wrth Un Llais Cymru; ymateb Un Llais Cymru i Adolygiad y Cyngor Cymuned a Thref ac Arweiniad Gwasanaethau Un Llais Cymru

Penderfynwyd rhoi yr ymateb i'r adolygiad ar raglen waith y Cyngor nesaf a derbyniwyd yr arweiniad i'r gwasanaethau er gwybodaeth.

24. Cyhoeddiad gan y Clerc.

Gwnaeth y Clerc gais i'r Pwyllgor Amodau Gwaith gyfarfod i drafod swydd y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol gan ei fod yn bwriadu rhoi gorau iddi ddiwedd mis Medi 2018.

Cadarnhawyd aelodaeth y pwyllgor sef y Cyngorwyr Margaret Griffith, Marian Evans, Trefor W Jones, Thomas Prys Jones, Anwen Jones, William Ifor Hughes a Gareth O Davies a threfnwyd i gyfarfod yn Ystafell Bwyllgor, Neuadd Llanystumdwy nos Fawrth, Mai 8fed am 7 o'r gloch.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.